Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Diweddariad i gymryd lle Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2004.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad electronig hwn yw: 10 Medi 2010

Rhaid i'ch sylwadau ddod i law erbyn y dyddiad hwnnw

:

Cwestiynau am y newidiadau arfaethedig

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw: **Rebecca Williams**

Corff (os yw'n berthnasol):
UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

E-bost / rhif ffôn:
rebecca@athrawon.com / 01970 639950

Eich cyfeiriad:
UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

1. **Pan fo'r Rheoliadau 2010 drafft yn caniatáu i berson gyflawni gwaith penodedig am gyfnod dynodedig, a ydych yn cytuno y dylid ymestyn y cyfnod hwnnw er mwyn ystyried unrhyw gyfnod pan fydd y person yn absennol o'r gwaith oherwydd absenoldeb mamolaeth, absenoldeb rhiant, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu neu feichiogrwydd?**

Yn cytuno	✓	Yn anghytuno	☐	Ddim yn siŵr	☐

Sylwadau:

Mae'r cynnig yn ymddangos yn gwbl resymol, ac mae UCAC yn cefnogi'r cynnig.

2. **A ydych yn cytuno y dylai'r rhestr o bobl yn y grŵp 'athrawon eraill' sy'n gallu cyflawni 'gwaith penodedig' yn y Rheoliadau 2010 drafft gynnwys hyfforddeion ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon?**

Yn cytuno	☐	Yn anghytuno	✓	Ddim yn siŵr	☐

Sylwadau:

Priod waith athrawon cymwysedig yw'r 'gwaith penodedig', a barn gadarn UCAC yw y dylai athro cymwysedig fod yng ngofal dosbarth, ac yng ngofal y 'gwaith penodedig' bob amser, heblaw am eithriadau prin iawn. Rhaid cofio nad oes, yn gyffredinol, prinder athrawon cymwysedig i ymgymryd â 'gwaith penodedig' mewn ysgolion.

Wrth reswm, mae eithriadau gwbl deilwng i'r datganiad hwn - a chytunwn â'r ymgynghoriad, a'r Rheoliadau, bod angen rhestru categorïau penodol, a chyfyngiadau priodol arnynt (Atodlen 2). Ar y cyfan cytunwn â'r categorïau a'r cyfyngiadau sy'n cael eu rhestru.

Cytunwn hefyd â'r angen i fod yn glir ynghylch statws hyfforddeion ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon sy'n ymgymryd ag elfen o brofiad addysgu ymarferol. Serch hynny, gwêl UCAC beryglon yn y ffordd y caiff yr hyfforddeion hyn eu categoreiddio yn y Rheoliadau drafft newydd (Atodlen 2, paragraff 5).

Dyma rai o brif bryderon UCAC ynghylch geiriad y Rheoliad newydd:

- Yn wahanol i bob categori arall o staff a enwir yn Atodlen 2, nid yw'r hyfforddeion hyn yn gyflogedig (gan yr Awdurdod Lleol, yr ysgol dan sylw, nac unrhyw sefydliad addysg arall); nid ydynt yn cael eu talu am ysgwyddo'r un lefel o gyfrifoldeb â'r staff eraill a enwir yn y Rheoliadau

- Gweithio dan oruchwyliaeth mae'r hyfforddeion, nid gweithio'n annibynnol yn yr un modd ag athro cymwysedig; mae angen cefnogaeth gref a chyson arnynt, ac nid oes cydnabyddiaeth o hyn yn y Rheoliadau

- Maent yn debygol o ymgymryd â rhai elfennau o 'waith penodedig' ond nid bob un e.e. ni fyddai disgwyl i hyfforddeion, o reidrwydd, ymgymryd ag 'adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion'; yn hytrach, mi fyddent yn bwydo gwybodaeth i athro cymwysedig, a hwnnw/honno fyddai'n adrodd

- Mae gan y categori hwn o hyfforddeion yr hawl i gael amserlen ysgafnach nag athrawon cymwysedig, am eu bod yn hyfforddi at y swydd yn hytrach nag yn ysgwyddo'r swydd yn ei chyfanrwydd; mae'n bosib mai arsylwi gwersi athrawon eraill fyddan nhw ar y cychwyn, ac nid ymgymryd â gwaith addysgu o gwbl

- Yn sgil y Rheoliad newydd, byddai hyfforddeion yn gallu 'cyfarwyddo a goruchwylio' staff yn y categori 'Personau Eraill' (Atodlen 2, paragraff 8); cred UCAC bod hyn yn lefel rhy uchel o gyfrifoldeb ar gyfer rhywun dan hyfforddiant

Tra bod UCAC yn cydnabod bod hyfforddeion yn ymgymryd â rhai elfennau o 'waith penodedig', teimlwn, am y rhesymau uchod, bod yn rhaid pwysleisio nad ydynt yn gwneud hynny yn yr un ffordd ag athrawon cymwysedig, nag ychwaith yn yr un ffordd â'r athrawon eraill y cyfeirir atynt ym mharagraffau 2-4 a 6-7 yn Atodlen 2.

Nid yw'r Rheoliadau newydd yn cydnabod y gwahaniaeth hwnnw, ac felly teimlwn fod y Rheoliadau'n gadael y drws yn agored i'r camddefnydd o hyfforddeion mewn ysgolion.

- Mae'n hollbwysig fod hyfforddeion yn cael llonydd i ganolbwyntio ar hyfforddi, heb gael eu gorlwytho gyda chyfrifoldebau, a'u bod yn derbyn y lefel briodol o gefnogaeth a goruchwyliaeth

- Rhaid i unrhyw waith a ymgymerir gan athro dan hyfforddiant fod yn addas ar gyfer ei statws fel athro dan hyfforddiant – ac yn cyfrannu at yr hyfforddiant hwnnw

- Rhaid sicrhau nad oes modd trin athro dan hyfforddiant yn yr un ffordd ag athro cymwysedig o ran disgwyliadau a chyfrifoldebau, e.e. gwaith cyflenwi

Am y rhesymau hyn, awgryma UCAC yn gryf mai yn y categori olaf yn y Rheoliadau newydd, sef 'Personau Eraill y caniateir iddynt gyflawni gwaith penodedig' (Atodlen 2, Paragraff 8) y dylai Hyfforddeion ar Gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon fod, a hynny er mwyn sicrhau mai 'cynorthwyo neu gefnogi gwaith athrawon cymwysedig neu athrawon enwebedig' yw eu rôl.

3. A ydych yn cytuno y dylai'r rhestr o bobl yn y grŵp 'athrawon eraill' sy'n gallu cyflawni 'gwaith penodedig' yn y Rheoliadau 2010 drafft gynnwys athrawon addysg bellach cymwysedig sy'n cyflwyno cyrsiau galwedigaethol o fewn y cwricwlwm lleol o dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009?

Yn cytuno	✓	Yn anghytuno	☐	Ddim yn siŵr	☐

Sylwadau:

Yng nghyd-destun y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, mae'r cynnig yn gwbl resymol. Credwn y bydd y cynnig yn gynhorthwy sylweddol wrth i ysgolion a cholegau geisio ymgyrraedd at ofynion y Mesur.

Mae UCAC yn cefnogi'r symudiad tuag at gydraddoldeb o ran tâl ac amodau gwaith athrawon a darlithwyr addysg bellach, a gwelwn y cynnig hwn yn y cyd-destun hwnnw.

Croesawn y cyfyngiad i 'addysgu addysg bellach yng nghyswllt galwedigaethol' (Atodiad 3 yn y ddogfen ymgynghorol), yn hytrach na chaniatáu i'r categori hwn addysgu holl ddisgyblion mewn ysgol a gynhelir. Mae darlithwyr addysg bellach wedi'u hyfforddi i addysgu'r sector ôl-16 yn bennaf, felly cytunwn nad yw'n briodol iddynt addysgu disgyblion tu hwnt i'r sector 14-19 yn yr ysgol.

Serch hynny, rhaid mynegi pryder ynghylch un agwedd o'r cynnig. O dan y cynnig hwn, byddai'r darlithwyr addysg bellach yn 'athrawon enwebedig', felly, yn naturiol, byddai modd i 'bersonau eraill y caniateir iddynt gyflawni gwaith penodedig' gefnogi eu gwaith wrth ymgymryd â 'gwaith penodedig' yn yr ysgol. Cyfeirir yn Atodiad 3 y ddogfen ymgynghorol at y posibilrwydd mai 'staff sy'n ymgymryd â rôl gefnogol mewn sefydliadau addysg bellach' fyddai'r rhain (yn hytrach na staff a gyflogir gan yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol), ac y byddai angen i Bennaeth yr ysgol wneud penderfyniad 'ynghylch y sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad y mae eu hangen i gyflawni gwaith penodedig y staff cymorth'.

Rhaid bod yn ofalus dros ben wrth ddod â rhagor o staff i mewn i'r ysgol nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol, a bod yn gwbl glir bod polisïau yn eu lle o ran diogelwch plant, safonau proffesiynol, monitro perfformiad a disgyblu. Ar yr un pryd, rhaid gochel rhag creu llwyth gwaith anferthol ychwanegol i benaethiaid.

4. Ar wahân i'r materion penodol sydd dan sylw yng nghwestiynau 1-3, a ydych yn fodlon ar y newidiadau arfaethedig yn y Rheoliadau 2010 drafft sydd wedi'u rhestru yn atodiad 3?

Yn fodlon	✓	Ddim yn fodlon	☐	Ddim yn siŵr	☐

Sylwadau:

5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol, byddwch cystal â rhoi gwybod amdanynt yn y blwch isod:

Sylwadau:

(i) Yn y fersiwn Cymraeg o'r Rheoliadau drafft newydd, mae camgymeriad yn y rhifo yn Atodlen 2 ble mae'r paragraffau'n mynd o 3-10 yn hytrach nag o 1-8

(ii) Teimlwn ei bod hi'n werth tynnu sylw at y ffaith bod anghysondeb o ran y gwahanol gategorïau o bobl sy'n gymwys i ymgymryd â 'gwaith penodedig' mewn ysgolion, a'r rheidrwydd i gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Rhaid i athrawon cymwysedig (â Statws Athro Cymwysedig - SAC) gofrestru gyda'r Cyngor Addysgu; ni all unrhyw un o'r sawl sy'n cael eu rhestru yn Atodlen 2, ac sy'n gymwys i ymgymryd â 'gwaith penodedig', gofrestru â'r Cyngor Addysgu am nad oes SAC ganddynt.

Nid oes cyrff rheoleiddio cyfatebol i'r categorïau hyn o staff. Cred UCAC y gallai hyn arwain at anawsterau o ran y berthynas rhwng athrawon cymwysedig a'r categorïau eraill o staff sy'n ymgymryd â 'gwaith penodedig' yn yr ysgol.

Mae angen bod yn gwbl glir ynghylch y safonau proffesiynol disgwyliedig, ac unrhyw gyfundrefnau monitro perfformiad a disgyblu - ar gyfer y cyfnodau hynny pan fydd y staff yn addysgu yn yr ysgol; yn ogystal rhaid bod yn gyson o ran disgwyliadau/ safonau/polisïau disgyblu mewn perthynas ag ymddygiad tu hwnt i'r ysgol sy'n ofynnol ar aelodau o broffesiwn a reoleiddir.

Gellir cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriadau – ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch ar y dde: ☐

Diolch am roi o'ch amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Dylid anfon yr holiaduron yn ôl yn electronig at:

specifiedworkconsultation@wales.gsi.gov.uk

Fel arall, mae modd argraffu'r ffurflen hon a'i llenwi ar gopi caled. Gellir anfon ymatebion ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod, ond rhaid iddynt ddod i law erbyn **10 Medi 2010** fan bellaf.

Anfonwch eich ymatebion at:

Gail Deane
Yr Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ